

CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 10fed o Orffennaf 2024 am 8.00yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.

Presennol; Cyng. John P Jones, Berwyn Harding, Wyn Lewis, Idris Jones, Arfon Hughes, John P Roberts, a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Cyng John P Jones. Roedd ymddiheuriadau gan Cyng Catrin Jones, Lynne Mccrickett, Rhys Davies a Geraint Morgans.
Gwahoddwyd ddatganiadau o ddidordeb am faterion ar yr agenda. Nid oedd unrhyw ddatganiadau.
2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Cadarnhawyd gofnodion y Cyfarfod Blynnyddol** a gynhaliwyd ar y 15fed o Fai ar gynnig Cyng John P Jones a'i eilio gan Cyng Wyn Lewis.
4. **Materion yn codi**
 - a) **Materion Priffyrdd/Cefnffyrdd** – adroddwyd yn llawn am yr ymatebion i faterion Priffyrdd ers y tro diwethaf. Bu cyfarfod ym maes parcio Neuadd Aberangell gyda chynrychiolwyr Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd ar yr 20fed o Fehefin gyda Cyng Berwyn Harding, Rhys Davies, John P Roberts (Cyng Gwynedd) ac roedd yr argymhellion wedi eu dosbarthu. Cytunwyd fod hyn yn ffordd ymlaen i geisio datrys y broblem.
Roedd angen cyfeirio cerbydau yn parcio ochrau ffyrdd (a oedd yn achosi anhwylustod) i'r heddlu. Nid oedd yn broblem ar hyn o bryd.
O ran materion Cefnffyrdd, roedd gohebiaeth yn parhau am ddwr ar y ffordd ger Celynbrithion ar gyfnodau o law, ac roedd angen lluniau.
 - b) **Gwerthiant Eglwys Llanymawddwy** – adroddwyd nad oedd unrhyw ddiweddaraid i law, a bod disgwyl gwybodaeth gan yr Eglwys yng Nghymru.
 - c) **Cwyn am 2 garafan static** – Min y Goedwig, Aberangell, - roedd angen diweddariad pellach gan y Parc Cenedlaethol.
 - d) **Pwyllgor yr Hen Fynwent** – nid oedd diweddariad i'w adrodd.
 - e) **Safle chwarae i blant hyd at 15 oed yn y Plas yn Dinas – darllenwyd** ateb diweddaraf gan Bryn Hughes o Gyngor Gwynedd. Ni allai Cyngor Gwynedd gyllido hyn, ond roedd cynnig l'r Cyngor Cymuned brydlesu'r tir. Gwelwyd y gellir mynd ymlaen efo hyn, ond bod angen prisiau, ac ymchwil am gael grantiau. Cytunodd Cyng Wyn Lewis arwain ar y mater yma.
 - f) **Sefyllfa ddiweddaraf gyda'r Flexibus o Dinas I Fachynlleth**, (sef dim gwasanaseth ar ddydd Sadwrn) - cadarnhaodd y Cyng John P Roberts nad oedd hyn yn bosib gan nad oedd Cyngor Powys yn fodlon cynorthwyo l gyllido hyn, ond hefyd nifer fach oedd yn ei ddefnyddio.

g) **Commonwealth War Graves Commission** – darllenwyd y gohebiaeth ddiweddaraf. Nodwyd fod 3ydd cofeb yn hen fynwent y Dinas. Hefyd roedd cynnig I gael arwyddion, ac na fyddai cost am hyn I'r Cyngor. Byddai y Clerc yn danfon lluniau iddynt, a chytunodd Cyng Arfon Hughes I gynorthwyo efo hyn.

h) **Biniau baw cwn yr ardal** – nododd y Cyng John P Roberts ei fod bellach wedi cael cadarnhad y byddai yna fin yn cael ei osod ger Celyn Brithion. Nododd Cyng Arfon Huges ei fod wedi rhoi biniau yn y Plas, sef ger y chalets a Dolhir. Diolchwyd am hyn I gyd.

i) **Nifer sy'n mynychu Eglwys Mallwyd** – adroddwyd am y cwmp yn nifer sy'n mynychu ein haddoldai yn yr ardal, a bod rhaid chwilio am beth gellir ei wneud, ond nad oedd atebion hawdd.

j) **Ymholiad Dwr Cymru fod plwm yn y dwr** – roedd y Clerc wedi cysylltu 2 waith gyda hwy. Adroddodd Cyng Arfon Hughes fod gohebiaeth pellach yn awr gan Dwr Cymru.

5 . Materion Cynllunio

Adroddwyd fod un cais wedi ei ddsbarthu ers y tro diwethaf, sef;

Cais NP5/ 74/ 513

Hysbysiad o flaen llaw o dan Atodlen 2, Rhan 24 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ar gyfer gosod tŵr dellt trionglog 15m, gan gefnogi agorfeydd antena 3, llestri trosglwyddo 2 0.3m, 1 generadur solar, cypyrddau cysylltiedig 3 ac offer cysylltiedig o fewn cyfansoddyn diogel 14m x 7.25m wedi'i ffurfio o ffens 'Cochrane clearvu' gyda giât mynediad dwbl a datblygu ategol iddo

Tir i'r Dwyrain o Glanllyn Mawr, Dinas Mawddwy

Nodwyd fod hwn wedi ei ddsbarthu eisoes i'r Cynghorwyr yn gwahodd ateb erbyn 30 Mehefin. Cadarnhawyd fod y Cyngor Cymuned yn gefnogol I'r cais.

(cafwyd datganiad diddordeb gan y Cyng John P Roberts pan drafodwyd hyn)

6. Materion Cyllid.

a) **Nodwyd balansau y cyfrifon**, (10.07.24), sef Cyfri Cyfredol £7366.41, Cyfri Claddedigaeth £1043.28 Cyfri Cadw £782.65).

b) **Cyfeiriwyd at gyfrifon 2023- 24**, a bod Archwiliad Llawn eleni (sef bob 3 blynedd I bob Cyngor) Roedd y cyfan bellach wedi ei ddanfod I'r Archwilydd Allanol, ac roedd yr hysbysebion wedi eu gosod.

c) Nodwyd anfoneb Andrew Johnson, sef rhan gyntaf torri gwair mynwent Dinas Mawddwy eleni, a chytunwyd I dalu y swm o £439.99

d) Cydnabyddiaeth chwarter cyntaf y Clerc a thaliad HMRC – cadarnhawyd y swm o £435.15 a £108.60

- e) Roedd cais am arian I law gan Cerebral Palsy Cymru, ond penderfynwyd peidio cyfrannu am y tro, ond ystyried ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.
- f) Roedd anfoneb gan Un Llais Cymru am £20 am hyfforddiant I Lynne Mccrickett wedi ei dalu gan Lynne, a diolchwyd iddi am wneud hyn, ac am ei diddordeb.

7. Gohebiaeth.

- a) Roedd e-bost i law gan Anwen Pugh ar ran Neuadd Dinas Mawddwy ynglyn a Cloch y Plas, a'r opsiynau ar sut i'w harddangos. Awgrymwyd mai yr opsiwn gorau fyddai ei gosod oddiar y porch mynedfa canol y neuadd, gyda ffram bwrpasol wedi ei adeiladu. (cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng Wyn Lewis, John P Jones a John P Roberts pan drafodwyd hyn)

Tra yn trafod hyn, danfonwyd ein cofion cynhesaf at Hefin Davies y gofalwr a oedd yn yr ysbyty.

- b) Roedd e bost gan y Parch Miriam Beecroft ynglyn a torri gwair mynwent Mallwyd, a bod priodas yno ar y 10fed o Awst. Roedd y Clerc wedi siarad gyda Tegid y contractor, ac roedd wedi cadarnhau y byddai yn torri tro ychwanegol ychydig ddyddiau cyn y dyddiad.
- c) Nodwyd llythyr GIG Cymru ynglyn a Fforwm Cleifion Machynlleth, a oedd i'w gynnal ar Nos Fawrth 16eg o Orffennaf, a chytunodd y Cyng Berwyn Harding fynychu ar ran y Cyngor Cymuned.
- d) Nodwyd gohebiaeth Panel Annibynnol Cymru (Llywodraeth Cymru) ynglyn a cydnabyddiaeth ariannol Cynghorwyr 2024-25.
- e) Nodwyd llythyr yr Ysgrifennydd Cabinet Ken Skates ynglyn a mater cyfyngiad 20mya, ond gwelwyd nad oedd angen awgrymu unrhyw newidiadau o fewn terfyn y Cyngor Cymuned.
- f) Nodwyd cyrsiau diweddaraf Un Llais Cymru, a byddai'r Clerc yn dosbarthu I bawb. Nodwyd gyfarfod Un Llais Cymru Meirionnydd a oedd i'w gynnal Nos Fercher 17eg o Orffennaf.
- g) Nodwyd ohebiaeth LLAIS (llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol) ynglyn a lansio Cynllun Strategol 2024-27.

8. Unrhyw Fater arall.

- a) Gofynnwyd beth oedd y diweddaraf gyda'r cais am diffibrilator i Lanymawddwy , a byddai'r Clerc yn ymholi.
- b) Cyfeiriwyd at lwybrau yr ardal, a gofynnwyd am wybodaeth o pa lwybrau yn union y mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol amdanynt. Nodwyd y llwybr o Tanybwllch efo'r afon I gyfeiriad Abercywarch, ac o Dafarn Newydd ymlaen am Fron Goch (o dan Cefn Coch). Byddai'r Clerc yn ymholi.
- c) Cadarnhaodd Cyng Arfon Hughes ei fod wedi cael gair yn y Caffi am gwyn am y bwrdd sy'n cael ei roi ar y pafin gyferbyn a Caffi'r Hen Siop, ac yn achosi anhwylostod i gerddwyr. Fodd bynnag, roedd y broblem yn parhau, a'r bwrdd yn parhau I fod yno. Yn dilyn trafodaeth, ac ar gynnig Cyng Idris Jones, ei eilio

gan Cyng Wyn Lewis a gyda mwyafrif y Cynghorwyr, gwelwyd fod rhaid cyfeirio hyn at Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd.

- d) Roedd pant wedi datblygu ar y ffordd ger y gornel ar stryd Wyle Cop, sef gyferbyn a Llety'r Plas. Roedd angen danfon at Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd.
- e) Roedd angen tacluso yr hen bont dros yr A470, (adeiladwyd 1840's) ac awgrymwyd fod hyn yn mynd ar restr Tim tacluso Gwynedd.
- f) Roedd yn anodd gweld arwyddion y goleuadau traffic ger Ponarwysgen ar yr A458, a oedd yn achosi perygl.
- g) Diolchwyd yn fawr iawn I Hedd Pugh am dorri gwair Comin Dolybont. Hefyd diolchwyd i Cyng Idris Jones a, dorri oddiamgylch y meinciau, a hefyd diolchwyd yn fawr iawn I'r Cyng John P Jones am osod polion o'r newydd ger terfyn y comin gyda'r ffordd.
- h) Diolchwyd yn fawr iawn I drefnwyr Gwyl y Gwylliaid am ddigwyddiad llwyddiannus iawn, a byddai'r Clerc yn danfon gair atynt.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY NOS FERCHER
28ain o Awst 2024 , 8.00y.h.**